Estyn

Rhagoriaeth i bawb – Excellence for all

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru

Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

Effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ddatblygu'r cwricwlwm

Mehefin 2008

Iechyd ar Waith
Health at Work
BUDDSODDWR MEWN POBL
INVESTOR IN PEOPLE

Diben Estyn yw arolygu ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru. Mae Estyn yn gyfrifol am arolygu:

- ysgolion a safleoedd meithrin a gynhelir gan, neu sy'n cael arian gan awdurdodau lleol (ALlau);
- ysgolion cynradd;
- ysgolion uwchradd;
- ysgolion arbennig;
- unedau cyfeirio disgyblion;
- ysgolion annibynnol;
- addysg bellach;
- dysgu oedolion yn y gymuned;
- gwasanaethau cymorth ieuenctid;
- hyfforddiant gwaith ieuenctid a chymuned;
- ALlau;
- addysg a hyfforddiant athrawon;
- dysgu yn y gwaith;
- cwmnïau gyrfaoedd;
- dysgu troseddwyr; ac
- elfennau addysg, arweiniad a hyfforddiant y Ganolfan Byd Gwaith/rhaglenni hyfforddi a ariennir gan yr Adran Gwaith a Phensiynau.

Mae Estyn hefyd:

- yn rhoi cyngor ar ansawdd a safonau mewn addysg a hyfforddiant yng Nghymru i Gynulliad Cenedlaethol Cymru ac eraill; ac
- yn cyhoeddi achosion o arfer dda yn seiliedig ar dystiolaeth arolygu.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor
Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.gsi.gov.uk

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.gov.uk

Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg)

Ⓗ Hawlfraint y Goron 2008: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl y ddogfen/cyhoeddiad.

Cynnwys	Tudalen

Cyflwyniad **1**

Cefndir **2**

Prif ganfyddiadau **4**

Argymhellion **6**

Effaith y Gronfa Ysgolion Gwell **7**

Rheoli'r Gronfa Ysgolion Gwell **10**

Gweinyddu'r Gronfa Ysgolion Gwell gan Lywodraeth Cynulliad Cymru 10
Cynllunio awdurdodau lleol ac ysgolion 10
Monitro ac arfarnu 12
Cydweithio a rhannu arfer dda 14

Cyflwyniad

1 Diben y cyngor hwn yw rhoi arfarniad i Lywodraeth Cynulliad Cymru o effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ddatblygu cwricwlwm eang a chytbwys. Mae'r adroddiad yn cynnwys nifer o astudiaethau achos er mwyn dangos gwahanol agweddau ar arfer dda.

2 Mae'r adroddiad wedi'i seilio ar dystiolaeth a gasglwyd o:

- arolygu ysgolion a gwasanaethau awdurdodau addysg lleol yng Nghymru rhwng mis Medi 2005 a mis Awst 2007;
- dadansoddiad o geisiadau i'r Gronfa Ysgolion Gwell o'r holl awdurdodau lleol ar gyfer y blynyddoedd 2006-2007, 2007-2008 a 2008-2009;
- dadansoddiad o ddogfennaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol ac ysgolion, gan gynnwys rhaglenni hyfforddi ac arfarniadau cyrsiau, cynlluniau datblygu ysgol a chofnodion o arsylwadau gwersi;
- cyfweliadau â swyddogion sy'n gyfrifol am wella ysgolion, datblygiad staff a rheoli'r Gronfa Ysgolion Gwell mewn chwe awdurdod lleol;
- cyfweliadau â phenaethiaid a staff eraill sy'n gyfrifol am ddatblygiad staff o sampl gynrychioliadol o bum ysgol uwchradd a phum ysgol gynradd ledled Cymru; ac
- adroddiadau cyhoeddiedig ar y Gronfa Ysgolion Gwell gan Estyn a Swyddfa Archwilio Cymru[1].

[1] Yn 2006, cyhoeddodd Swyddfa Archwilio Cymru adroddiad yn dwyn y teitl 'Gweinyddu Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) a'r Gronfa Ysgolion Gwell'. Roedd yr adroddiad hwn yn argymell bod angen i Lywodraeth Cynulliad Cymru ymgynghori'n gynharach ag awdurdodau lleol ynglŷn â blaenoriaethau ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell; rhoi gwybod i awdurdodau lleol yn gynharach am eu dyraniad cyllid; gwella ansawdd y ceisiadau awdurdodau lleol am gyllid; ac arfarnu effaith y cyllid yn well.

Cefndir

3 Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn darparu cymorth grant wedi'i dargedu ar gyfer awdurdodau lleol er mwyn eu helpu i fod yn arloesol, rhannu arfer dda a datblygu mentrau newydd i wella addysgu, dysgu ac ehangder y cwricwlwm. Mae'n cefnogi gweledigaeth Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer ysgolion, sef:

- darparu addysg ansawdd da iawn ac ysbrydoledig;
- darparu cwricwlwm eang ac ysgogol;
- defnyddio dulliau asesu a thargedau sy'n helpu dysgwyr i ddatblygu ar eu cyflymder eu hunain; ac
- ymgorffori cynhwysiad cymdeithasol, datblygiad cynaliadwy, cyfle cyfartal a dwyieithrwydd ym mhob agwedd ar fywyd yr ysgol.

4 Bob blwyddyn, mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn nodi nifer o feysydd gweithgaredd ac yn disgrifio yn y meysydd hyn y blaenoriaethau a'r mathau o fentrau a fydd yn gymwys i gael cyllid. Yn 2006-2007, dyrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £39.3 miliwn i'r Gronfa Ysgolion Gwell. Roedd y £39.3 miliwn hyn yn cynnwys 60% o grant a 40% o gyfraniad gan awdurdodau lleol. Rhannwyd y swm hwn rhwng meysydd gweithgaredd datblygu'r cwricwlwm, hyfforddi llywodraethwyr, cymorth i ddisgyblion, anghenion dysgu ychwanegol, Iaith Pawb mewn Ysgolion a thechnoleg gwybodaeth a chyfathrebu (TGCh) mewn ysgolion. Yn 2007-2008, dyrannodd Llywodraeth Cynulliad Cymru £38.4 miliwn i'r Gronfa Ysgolion Gwell. Rhannwyd y swm hwn rhwng medrau sylfaenol a throsglwyddo; trefniadau diwygiedig i'r cwricwlwm ac asesu; cymorth i ddisgyblion, a'u lles ac iechyd; cynhwysiad; Iaith Pawb mewn Ysgolion; a TGCh mewn ysgolion.

5 Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn cael ei thargedu at waith sy'n cefnogi'r themâu sylfaenol canlynol: datblygu a rhannu arfer dda; hyrwyddo arloesedd; annog dulliau ysgol gyfan ac ymyriadau traws gwricwlaidd; dangos effaith ar addysgu a dysgu; a chydweithio ar draws gwahanol awdurdodau lleol ac ysgolion.

6 Mae'r adroddiad hwn yn ystyried gwaith ym maes gweithgaredd 1C yn 2006-2007 a gefnogodd arloesedd a mentrau ym meysydd:

- ieithoedd tramor modern;
- addysg gorfforol;
- cynlluniau ysgolion iach;
- addysg ar gyfer datblygiad cynaliadwy a dinasyddiaeth fyd-eang;
- y Cwricwlwm Cymreig; a
- Llwybrau Dysgu 14-19.

7 Mae hefyd yn ystyried gwaith ym maes gweithgaredd 2C yn 2007-2008 a gefnogodd arloesedd a mentrau ym meysydd:

- staff yn ymgyfarwyddo â'r Gorchmynion a'r fframweithiau diwygiedig, a pharatoi cynlluniau gwaith ar gyfer y Cyfnod Sylfaen, cyfnod allweddol 2 a chyfnod allweddol 3;
- lledaenu arfer dda, a hyfforddiant i gefnogi mwy o bwyslais ar gyfer addysgu ac asesu medrau meddwl a dysgu i ddysgwyr 3-14 oed;
- datblygu amgylchoedd dysgu yn yr awyr agored (yn benodol, ar gyfer y Cyfnod Sylfaen);
- hyfforddiant a chymorth arbenigol ar gyfer athrawon mewn addysg rhyw a pherthynas; a
- datblygu dulliau arloesol ar gyfer addysgu gwyddoniaeth.

8 Yn 2007, wrth ymateb i argymhellion adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru yn dwyn y teitl 'Gweinyddu Grantiau Cynnal Addysg a Hyfforddiant (GCAH) a'r Gronfa Ysgolion Gwell 2006', cyhoeddodd Llywodraeth Cynulliad Cymru arweiniad a gwybodaeth ar gyfer cynllunio, rheoli ac arfarnu Grant y Gronfa Ysgolion Gwell yn effeithiol. Mae'r arweiniad hwn yn darparu astudiaethau achos arfer dda mewn arfarnu effaith gweithgareddau'r Gronfa Ysgolion Gwell. Mae hefyd wedi cyflwyno fformat cyson a chyffredin ar gyfer y cynlluniau gwario y mae angen i awdurdodau lleol eu cyflwyno i Lywodraeth Cynulliad Cymru.

Prif ganfyddiadau

9 Defnyddir mwyafrif adnoddau'r Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer datblygu'r cwricwlwm ar hyfforddi a datblygu staff. Er bod awdurdodau lleol ac ysgolion yn monitro'r modd y mae ysgolion yn defnyddio eu cyllid a pha mor ddefnyddiol y mae staff yn ystyried y gweithgareddau hyfforddi a datblygu hyn, nid ydynt yn arfarnu pa mor effeithiol yw'r gweithgareddau hyn wrth ddatblygu'r cwricwlwm a gwella canlyniadau ar gyfer dysgwyr.

10 Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn aml yn cael ei defnyddio ar y cyd ag adnoddau eraill fel cyllid ar gyfer Llwybrau Dysgu 14-19, RHAGORI[2] neu'r grant trosglwyddo i ariannu gweithgareddau datblygu'r cwricwlwm. Hefyd, mae ystod y blaenoriaethau cenedlaethol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yr eir i'r afael â nhw trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell yn eang iawn. O ganlyniad i ehangder y blaenoriaethau, yr ariannu ar y cyd â grantiau eraill a'r diffyg arfarnu â ffocws, nid yw awdurdodau lleol na Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwybod beth yw effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar flaenoriaethau cenedlaethol penodol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm.

11 At ei gilydd, mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn trefnu ystod eang o weithgareddau hyfforddi a datblygu'r cwricwlwm gan ddefnyddio'r Gronfa Ysgolion Gwell. Mae'r gweithgareddau hyn yn mynd i'r afael â'r blaenoriaethau cenedlaethol a nodwyd yn arweiniad y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, ac maent yn cynnwys hyfforddiant, digwyddiadau rhwydweithio, datblygu adnoddau, cynadleddau a chymorth wedi'i dargedu ar gyfer staff. Mae awdurdodau lleol yn rhoi gwybodaeth dda i ysgolion ynglŷn â pha gyfleoedd hyfforddi a datblygu sydd ar gael. Yn yr enghreifftiau gorau, caiff y rhaglen hyfforddi ei chynllunio trwy ymgynghori'n llawn ag ysgolion.

12 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r tîm arweinyddiaeth yn defnyddio'u rhaglen o arsylwadau ystafell ddosbarth yn dda i arfarnu'r modd y mae datblygiadau ysgol gyfan a hyfforddiant yn gwella arfer ystafell ddosbarth. Mae'r gwaith hwn yn eu galluogi i arfarnu'r newidiadau a wna athrawon unigol i'r modd y maent yn cynllunio ac yn cyflwyno'r cwricwlwm yn dilyn hyfforddiant ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn gwybod beth yw effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar gwricwlwm yr ysgol nac ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr.

13 Rhwng 2005 a 2007, mae swm yr hyfforddiant ar y cyd ar ddatblygu'r cwricwlwm sy'n cael ei drefnu rhwng gwahanol ysgolion a gwahanol awdurdodau lleol wedi cynyddu. O ganlyniad, caiff arbenigedd ac arfer dda eu rhannu'n ehangach. Fodd bynnag, nid yw'r arweiniad a'r broses ymgeisio ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell yn hyrwyddo cydweithio rhanbarthol gwell yn glir.

[2] Mae rhaglen RHAGORI, (Codi Cyrhaeddiad a Safonau Addysgol Unigolion yng Nghymru), yn targedu disgyblion sydd dan anfantais ac yn ceisio codi lefelau eu perfformiad. Caiff y cyllid ei dargedu at ysgolion lle mae 20% neu fwy o'r disgyblion hynny yn gymwys am brydau ysgol am ddim (ac eithrio ysgolion sydd â llai na 50 o ddisgyblion) ac ar gyfer cymorth dysgu i blant y gofelir amdanynt.

14 Nid yw pob awdurdod lleol yn defnyddio ei ddadansoddiad o anghenion a llwyddiant gweithgarwch blaenorol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm yn ddigon trylwyr i dargedu cymorth at yr ysgolion hynny a'r disgyblion a fyddai'n elwa fwyaf arno.

15 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth briodol am fonitro er mwyn gallu arfarnu effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ym mhob awdurdod lleol neu ledled Cymru. Yn ychwanegol, nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru bob amser yn nodi'r diffyg dadansoddi, ffocws ar ganlyniadau a blaenoriaethu fel diffygion mewn ceisiadau am gyllid yn ystod y broses asesu, felly nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud gwelliannau yn rheolaidd.

Argymhellion

Dylai Llywodraeth Cynulliad Cymru:

A1 leihau ystod y blaenoriaethau i fynd i'r afael â nhw yn arweiniad y Gronfa Ysgolion Gwell er mwyn galluogi mwy o nodi anghenion yn lleol a phwyslais cynyddol ar themâu allweddol rhannu arfer dda a chanolbwyntio ar arloesedd, cydweithio a'i effaith ar addysgu;

A2 datblygu system adrodd fwy trylwyr i arfarnu effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ansawdd addysgu a dysgu; a

A3 defnyddio eu hasesiadau o geisiadau am gyllid i wella pa mor dda y mae awdurdodau lleol yn arfarnu effaith y Gronfa Ysgolion Gwell.

Dylai awdurdodau lleol:

A4 wneud arfarniad trylwyr o effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ehangu'r cwricwlwm a gwella safonau mewn addysgu a dysgu ar draws pob ysgol;

A5 targedu gweithgareddau'r Gronfa Ysgolion Gwell yn fwy effeithiol tuag at feysydd cwricwlwm, ysgolion a disgyblion y mae angen eu datblygu fwyaf; a

A6 gweithio gydag ysgolion ac awdurdodau lleol eraill i gynllunio rhaglen eang o weithgareddau datblygiad proffesiynol parhaus yn unol â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm.

Dylai ysgolion:

A7 nodi mwy o gyfleoedd ar gyfer cydweithio gydag ysgolion eraill i drefnu neu brynu hyfforddiant ar y cyd; a

A8 sicrhau bod gweithgareddau'r Gronfa Ysgolion Gwell yn mynd i'r afael â blaenoriaethau ysgol gyfan a nodwyd ar gyfer datblygu'r cwricwlwm ac arfarnu effaith gweithgareddau ar y blaenoriaethau hyn ac ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr.

Effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ddatblygu'r cwricwlwm

16 Caiff mwyafrif adnoddau'r Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer datblygu'r cwricwlwm eu gwario ar hyfforddi a datblygu staff. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn casglu gwybodaeth am niferoedd y sesiynau hyfforddi a ddarperir a niferoedd yr athrawon sydd wedi'u hyfforddi mewn defnyddio'r Gronfa Ysgolion Gwell. Yn 2006-2007, hyfforddwyd dros 8,000 o athrawon yn natblygiadau'r cwricwlwm sy'n ymwneud ag ieithoedd tramor modern, addysg gorfforol, cynlluniau ysgolion iach, dinasyddiaeth fyd-eang a datblygiad cynaliadwy, Llwybrau Dysgu 14-19 a'r Cwricwlwm Cymreig. O'r athrawon a hyfforddwyd, dim ond un o bob pump ohonynt sydd o ysgolion uwchradd. Mae'r anghydbwysedd hwn yn aml oherwydd bod mentrau hyfforddi awdurdodau lleol yn targedu un athro o bob ysgol yn unig. O ganlyniad, mae cyfran lawer mwy o athrawon ysgolion cynradd ledled Cymru yn cael mynediad i hyfforddiant datblygu'r cwricwlwm a ariennir trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell nag athrawon ysgolion uwchradd.

17 Mae llawer o ysgolion yn defnyddio'r Gronfa Ysgolion Gwell i gefnogi arweinwyr cwricwlwm a staff eraill i ddilyn hynt a helynt datblygiadau newydd yn y cwricwlwm. Er enghraifft, mae llawer o awdurdodau lleol wedi darparu hyfforddiant er mwyn helpu staff i baratoi ar gyfer y cyfnod sylfaen. At ei gilydd, yn sgil arolygiadau ysgol Estyn a gynhaliwyd rhwng Medi 2005 ac Awst 2007, canfuwyd bod staff mewn llawer o ysgolion yn dangos gwybodaeth dda am eu pwnc a'u bod yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes.

Siart 1: Dadansoddiad o'r graddau a ddyfarnwyd mewn arolygiadau ysgol diweddar ar gyfer pa mor dda y mae staff yn dangos gwybodaeth dda am eu pwnc a'u bod yn gyfarwydd â datblygiadau diweddar yn eu maes



18 Ym mhob awdurdod lleol, defnyddir y Gronfa Ysgolion Gwell yn briodol i gynnal cynllun peilot o fentrau datblygu'r cwricwlwm cyn datblygu arfer ar draws pob ysgol. Mae llawer o enghreifftiau da o'r Gronfa Ysgolion Gwell yn cael eu defnyddio i gefnogi datblygu adnoddau y gellir eu rhannu yn ehangach, gan gynnwys pecynnau

trosglwyddo, deunyddiau dawnsio gwerin ac adnoddau medrau meddwl. Fodd bynnag, dim ond ychydig o fentrau datblygu'r cwricwlwm sy'n cael eu targedu at ysgolion neu ddisgyblion y mae angen cymorth arnynt fwyaf. Er enghraifft, fe wnaeth un awdurdod lleol dargedu hyfforddiant a chymorth ar gyfer y rhaglen Dal i Fyny[3] mewn ysgolion y mae eu cyflawniad yn waeth mewn llythrennedd a rhifedd.

Astudiaeth achos 1

Menter ymchwil gweithredu

Mae un awdurdod lleol wedi cynnal dwy fenter sydd wedi'u hanelu at ddatblygu medrau meddwl ac asesu ar gyfer dysgu ar draws pob ysgol. Roedd y fenter ar asesu ar gyfer dysgu yn cynnwys addysgwr cydnabyddedig yn gweithio gyda 30 o athrawon mewn menter ymchwil gweithredu. Ymchwil a wneir gan athrawon ystafell ddosbarth mewn partneriaeth yw ymchwil gweithredu gyda'r bwriad o wella eu harfer eu hunain yn barhaus. Roedd y fenter hon yn cynnwys athrawon yn arbrofi â strategaethau addysgu newydd yn ystod lawn y lleoliadau ysgol. Cafodd y canfyddiadau o'r fenter eu bwydo'n ôl i ymarferwyr o bob cwr o Gymru mewn cynhadledd. Yn yr ail fenter, arbrofodd athrawon ag ystod o fedrau meddwl mewn ysgolion. Roedd yr athrawon a oedd yn cymryd rhan yn y ddwy fenter hon yn cyfarfod yn rheolaidd fel Tîm Dysgu ac maent wedi rhannu adnoddau ag ysgolion eraill fel cynlluniau gwersi, astudiaethau achos, posteri a deunyddiau dysgu. Mae staff mewn ysgolion yn awr yn fwy hyderus wrth addysgu medrau meddwl, ac mae'r cyfleoedd i ddatblygu medrau meddwl wedi'u cynllunio'n well mewn cynlluniau gwaith. Mewn un ysgol yr ymwelwyd â hi, mae plant yn defnyddio mwy o strategaethau wrth ddatrys problemau mewn mathemateg yn sgil gweithio ar fedrau meddwl.

19 Yn gyffredinol, mae staff yn barnu bod ansawdd y gweithgareddau hyfforddi a datblygu sy'n cael eu hariannu gan y Gronfa Ysgolion Gwell yn dda. Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, roedd staff yn gallu disgrifio'r gwahaniaeth yr oedd gweithgareddau datblygu wedi'i wneud i ansawdd yr addysgu ac ehangder y cwricwlwm a gynigir. Roedd hyfforddiant wedi helpu rhai ysgolion i ehangu ystod pynciau'r cwricwlwm y gallai disgyblion eu dewis ohonynt mewn TGAU neu Safon Uwch.

Astudiaeth achos 2

Ymgorffori asesu a medrau allweddol yn y cwricwlwm hanes

Cafodd un ysgol gyfun ddiwrnod hyfforddi tîm, ar gyfer yr adran hanes, i weithio ar asesu a'r cwricwlwm medrau ar gyfer dysgwyr blwyddyn saith. O ganlyniad, diwygiodd staff gynlluniau gwaith ac amserlenni asesu'r adran. Galluogodd y diwrnod hyfforddi tîm i'r adran hanes rannu arfer a datblygu gwersi cyffredin. Mae'r gwaith hwn wedi helpu gwella ansawdd yr addysgu a'r dysgu, ac mae'r asesu yn cael ei ymgorffori'n fwy yn y broses addysgu a dysgu.

[3] Rhaglen strwythuredig o sesiynau addysgu un i un ar gyfer disgyblion sy'n cael llythrennedd neu rifedd yn anodd yw'r rhaglen Dal i Fyny.

20 Nifer fach iawn o awdurdodau lleol sy'n gallu dangos cyswllt clir rhwng mentrau datblygu'r cwricwlwm a gynhelir gan ddefnyddio'r Gronfa Ysgolion Gwell a'r gwelliannau mewn canlyniadau ar gyfer dysgwyr. Mae llawer o gynlluniau datblygu ysgolion yn nodi canlyniadau disgwyliedig ar gyfer dysgwyr, ond nid yw cyflawniad yn erbyn y canlyniadau hyn yn cael ei arfarnu'n dda. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwybod pa effaith y mae mentrau datblygu'r cwricwlwm y Gronfa Ysgolion Gwell yn ei chael ar berfformiad yn asesiadau'r cwricwlwm cenedlaethol neu berfformiad mewn arholiadau. Mewn rhai achosion, hyd yn oed ar ôl sawl blwyddyn o raglenni cynaliadwy'r Gronfa Ysgolion Gwell, nid yw ysgolion ac awdurdodau lleol wedi cyflawni'r canlyniadau a fwriedir ar gyfer dysgwyr. Er enghraifft, er gwaethaf buddsoddi mewn addysgu ieithoedd tramor modern mewn un clwstwr o ysgolion cynradd, mae nifer y dysgwyr sy'n dewis astudio ieithoedd tramor modern yng nghyfnod allweddol wedi parhau i ostwng.

Astudiaeth achos 3

Parhad addysgu a dysgu ym Mlynyddoedd 6 a 7

Fe wnaeth un clwstwr o ysgolion gydgyfrannu eu cyllid i gefnogi'r broses o drosglwyddo dysgwyr yn effeithiol rhwng yr ysgol gynradd a'r ysgol uwchradd. Fe wnaeth y cyllid hwn a gyd-gyfrannwyd alluogi'r ysgolion i ddatblygu rhaglen benodol ar fedrau meddwl a dysgu a gyflwynwyd yn yr ysgolion cynradd ac a barhawyd yn yr ysgol uwchradd bartner.

Cydlynodd yr ysgolion y gwaith dilynol a'r monitro angenrheidiol i sicrhau bod yr hyfforddiant yn cael effaith ar ddysgwyr a'i fod yn cael ei ymgorffori yn y cwricwlwm. Mae adolygiad diweddar o addysgu a dysgu dysgwyr Blwyddyn 7 gan wasanaeth gwella ysgolion yr awdurdod lleol yn nodi bod y gwaith hwn yn arfer ragorol sydd wedi helpu gwella cyflawniad dysgwyr, yn ogystal â thrawsnewid addysgu'r athrawon sy'n cymryd rhan. Mae canlyniadau'r rhaglen hon yn cael eu rhannu ar draws yr awdurdod a bydd y broses yn cael ei hailadrodd yn y dyfodol.

Rheoli'r Gronfa Ysgolion Gwell

Gweinyddu'r Gronfa Ysgolion Gwell gan Lywodraeth Cynulliad Cymru

21 Fe wnaeth y broses o weinyddu'r Gronfa Ysgolion Gwell wella yn 2007. Ymatebodd Llywodraeth Cynulliad Cymru yn dda i'r rhan fwyaf o'r argymhellion o'r adroddiad, yn 2006, gan Swyddfa Archwilio Cymru ar weinyddu'r Gronfa Ysgolion Gwell. Yn benodol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr yn cynhyrchu safonau i gefnogi asesu cynlluniau gwario ac arweiniad ymarferol awdurdodau lleol ar arfarnu effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar gyfer awdurdodau lleol ac ysgolion. Yn ychwanegol, mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn awr yn ymgynghori'n well ag awdurdodau lleol ar yr arweiniad hwn nag yn y gorffennol.

22 Mae'r ceisiadau am gyllid a gyflwynir gan awdurdodau lleol yn amrywio'n eang o hyd o ran ansawdd. Mae'r ceisiadau yn rhy eiriog ac nid ydynt yn canolbwyntio digon ar ddadansoddiad trylwyr o anghenion i nodi'r blaenoriaethau lleol allweddol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Yn ychwanegol, nid yw ceisiadau am gyllid yn nodi'r canlyniadau disgwyliedig ar gyfer dysgwyr yn ddigon clir. Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru bob amser yn nodi'r diffyg dadansoddi, y ffocws ar ganlyniadau a blaenoriaethu mewn ceisiadau am gyllid yn ystod y broses asesu, felly nid ydynt yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol wneud gwelliannau yn rheolaidd.

23 Mae'r Gronfa Ysgolion Gwell yn cefnogi gormod o flaenoriaethau datblygu'r cwricwlwm o bolisïau cenedlaethol ar gyfer addysg a hyfforddiant. Er enghraifft, ym maes gweithgaredd 1C, sef datblygu'r cwricwlwm, yn 2006-2007, roedd chwe maes cymwys gwahanol ar gyfer gweithgarwch. Yn ychwanegol, mae datblygu'r cwricwlwm yn ymddangos fel blaenoriaeth mewn meysydd gweithgarwch arall fel medrau sylfaenol a throsglwyddo. O ganlyniad, mae ysgolion ac awdurdodau lleol wedi drysu ynglŷn â pha adnoddau y dylid eu defnyddio wrth gynllunio gweithgareddau datblygu'r cwricwlwm.

24 Nid yw Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gyflwyno arfarniad o effaith y gweithgareddau a ariennir gan y Gronfa Ysgolion Gwell, gan gynnwys y rheiny i ddatblygu'r cwricwlwm. Mae'r ffurflen gais flynyddol yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol gynllunio'r modd y byddant yn arfarnu effaith ac yn gofyn pa faterion oedd yn codi o'r arfarniad o waith y flwyddyn flaenorol. Mae awdurdodau lleol yn cyflwyno cynigion am gyllid ar gyfer y flwyddyn ganlynol ar ddechrau tymor yr hydref, cyn i'r rhan fwyaf o weithgarwch y flwyddyn gyfredol ddigwydd. O ganlyniad, nid ydynt yn gallu arfarnu effaith y gweithgarwch ar yr adeg honno.

Cynllunio awdurdodau lleol ac ysgolion

25 Mae gan bob awdurdod lleol grŵp llywio o swyddogion a chynrychiolwyr o ysgolion sy'n helpu cynllunio'r rhaglen Cronfa Ysgolion Gwell. Mae'r grŵp hwn fel arfer yn cynnwys swyddogion priodol i nodi blaenoriaethau lleol ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Fodd bynnag, nid yw'r ymgynghori rhwng y grŵp hwn ac ysgolion fel arfer yn digwydd yn ddigon cynnar i alluogi'r grŵp i gael adborth gan yr ysgolion eraill nad oes cynrychiolaeth ohonynt. O ganlyniad, nid yw pob ysgol yn dylanwadu ar y cynllunio ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell.

26 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion gyflwyno cynllun gwariant blynyddol ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell. Fodd bynnag, mae ansawdd y cynlluniau ysgol hyn yn amrywio'n eang. Yn yr enghreifftiau gorau, mae'r fformat ar gyfer y cynllun gwariant hwn yn helpu ysgolion i fyfyrio'n briodol ar weithgareddau'r flwyddyn flaenorol a dangos sut mae gweithgareddau a gynlluniwyd yn cysylltu â blaenoriaethau datblygu'r cwricwlwm yn eu cynllun datblygu ysgol. Yn yr enghreifftiau gwaethaf, mae awdurdodau lleol yn gofyn i ysgolion gyflwyno ychydig mwy na'r hyn y byddant yn ei wario ym mhob maes gweithgaredd.

27 Mae llawer o ysgolion yn ystyried y Gronfa Ysgolion Gwell yn gyllid ar gyfer datblygu staff. O ganlyniad, mae'r rhaglen hyfforddi a datblygu yn yr ysgolion hyn yn ymateb gormod i anghenion staff unigol, yn hytrach na hyrwyddo blaenoriaethau cwricwlwm ysgol gyfan a datblygiadau traws gwricwlaidd.

28 Mewn llawer o awdurdodau lleol, mae diffyg eglurder ynglŷn â'r cyllid sydd ar gael ar gyfer datblygu'r cwricwlwm. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn aml yn cyfuno Cyllid Ysgolion Gwell â grantiau eraill gan gynnwys RHAGORI a'r grant trosglwyddo. O ganlyniad, mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn ei chael yn anodd arfarnu effaith gwahanol grantiau ar ddatblygu'r cwricwlwm.

29 Mae pob awdurdod lleol yn defnyddio eu Fforwm Cyllideb Ysgolion[4] i gytuno faint o'r Gronfa Ysgolion Gwell fydd yn cael ei dirprwyo i ysgolion. Mae cyfran y Gronfa Ysgolion Gwell sy'n cael ei dirprwyo i ysgolion yn amrywio rhwng 35% a 96% mewn gwahanol awdurdodau lleol. Mae'r cyllid dirprwyedig, gan gynnwys cyllid ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, fel arfer yn cael ei ddosbarthu ar sail fformiwla sy'n ymwneud â nifer y dysgwyr neu'r staff ym mhob ysgol. O ganlyniad, nid yw cyllid dirprwyedig bob amser yn cael ei dargedu lle mae ei angen fwyaf i gefnogi datblygu'r cwricwlwm.

30 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cadw cyfran o'r Gronfa Ysgolion Gwell yn ganolog yng nghyllideb yr awdurdod i gynllunio mentrau ledled y sir. Mae enghreifftiau o waith da ledled y sir ar ddatblygu'r cwricwlwm yn cynnwys addysgu medrau meddwl, asesu ar gyfer dysgu a mentrau i sicrhau parhad y cwricwlwm ar gyfer dysgwyr yn ystod eu cyfnod yn trosglwyddo o gyfnod allweddol 2 i gyfnod allweddol 3.

31 Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol hefyd yn datblygu rhaglen hyfforddi eang ar gyfer staff mewn ysgolion i gefnogi datblygu'r cwricwlwm. Mewn un awdurdod lleol, caiff dadansoddiad o anghenion hyfforddi ei gwblhau bob blwyddyn gan ysgolion, a gwneir defnydd da o'r wybodaeth o'r dadansoddiad hwn i gynllunio'r rhaglen o gyrsiau hyfforddi. Mae'r dadansoddiad o anghenion hyfforddi yn gofyn i ysgolion flaenoriaethu anghenion datblygiad proffesiynol parhaus eu staff. Yn ychwanegol, mae'r awdurdod yn gofyn i ysgolion am awgrymiadau am yr hyfforddiant y bydd ei angen ar eu staff y flwyddyn ganlynol. Er bod y rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn casglu ystod eang o wybodaeth ddefnyddiol am gryfderau a gwendidau'r cwricwlwm mewn ysgolion unigol, nid yw rhai awdurdodau lleol yn gwneud digon o ddefnydd o'r wybodaeth hon i nodi a mynd i'r afael ag anghenion hyfforddi ar draws pob ysgol.

[4] Roedd Rheoliadau Fforymau Ysgolion (Cymru) 2003 yn ei gwneud yn ofynnol i bob awdurdod lleol sefydlu Fforwm Cyllideb Ysgolion. Rhaid i awdurdodau lleol ymgynghori â'r fforwm bob blwyddyn wrth osod eu cyllideb ysgolion ac ar unrhyw ddiwygiadau i'w cynllun ar gyfer ariannu ysgolion.

32 Mae awdurdodau lleol yn hyrwyddo hyfforddiant datblygu'r cwricwlwm yn dda. Trefnir yn aml bod manylion am y rhaglen hyfforddi ar gael i staff trwy wefan yr awdurdod lleol neu drwy ddosbarthu CD Rom. Ym mhob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, roedd ystod y cyrsiau yn cyd-fynd â blaenoriaethau datblygu'r cwricwlwm a nodwyd yn arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar y Gronfa Ysgolion Gwell.

33 Yn gyffredinol, mae ansawdd y cymorth gan awdurdodau lleol ar gyfer arweinwyr cwricwlwm mewn ysgolion yn amrywio gormod ledled Cymru. Yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol, caiff arweinwyr cwricwlwm fynediad da i hyfforddiant sy'n berthnasol i'r cwricwlwm ond mae'r mynediad a gânt i hyfforddiant a chymorth i ddatblygu eu medrau arweinyddiaeth a rheolaeth yn gyfyngedig. O ganlyniad, mae gan lawer o arweinwyr cwricwlwm wybodaeth dda am eu pwnc ond nid ydynt bob amser yn teimlo'n hyderus yn arwain datblygiadau'r cwricwlwm ar draws yr ysgol. Nid yw hyfforddiant arweinyddiaeth a rheolaeth yn gymwys o dan y Gronfa Ysgolion Gwell ar hyn o bryd.

34 Mae arolygiadau ysgol Estyn a gynhaliwyd rhwng Medi 2005 ac Awst 2007 yn dangos bod y rhan fwyaf o ysgolion yn gwerthuso yn staff effeithiol er mwyn hyrwyddo datblygiad proffesiynol a gwella ansawdd y ddarpariaeth. Mae'r rhan fwyaf o ysgolion hefyd yn sicrhau bod staff yn cael eu defnyddio, eu rheoli a'u datblygu'n dda. Yn yr enghreifftiau gorau, gall ysgolion ddangos effaith hyfforddi a datblygu staff ar ehangder y cwricwlwm, dulliau addysgu ac ystod yr adnoddau a ddefnyddir.

Monitro ac arfarnu

35 Mae pob awdurdod lleol yn monitro'r modd y mae ysgolion yn gwario eu dyraniad Cronfa Ysgolion Gwell yn rheolaidd. Fel arfer, mae gan swyddogion monitro wybodaeth ariannol dda a gwneir defnydd da o weithdrefnau archwilio i sicrhau bod gwariant yn gymwys o dan delerau'r Gronfa Ysgolion Gwell. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn rhoi arweiniad da i arweinwyr ysgol ar feini prawf y Gronfa Ysgolion Gwell ac ar brosesau gweinyddol ariannol sydd eu hangen i reoli'r cais am yr arian a'i wario. Mae swyddogion yn mynd i'r afael ag unrhyw danwario o ran y cyllid ar unwaith er mwyn sicrhau bod yr arian yn cael ei wario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Fodd bynnag, mae'r monitro hwn yn canolbwyntio ar wariant cyffredinol, yn hytrach nag ar wariant yn erbyn gweithgareddau penodol fel gweithgareddau datblygu'r cwricwlwm.

36 At ei gilydd, mae awdurdodau lleol yn cael gwybodaeth am effaith y Gronfa Ysgolion Gwell ar ansawdd addysgu a dysgu trwy ystod o wahanol weithgareddau. Ym mhob un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, trafodir gweithgareddau hyfforddiant datblygu'r cwricwlwm gyda phob ysgol fel rhan o ymweliadau tymhorol gan ymgynghorydd cyswllt. Mae'r drafodaeth hon yn helpu sicrhau bod gweithgareddau datblygu'r cwricwlwm yn briodol ac wedi'u cysylltu'n dda â'r cynllun datblygu ysgol. Mae ymgynghorwyr cyswllt hefyd yn archwilio cynlluniau datblygu ysgol ac adroddiadau hunanarfarnu. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o'r cynnydd cyffredinol a wna ysgol i ddatblygu ei chwricwlwm.

37 Ym mhob awdurdod lleol, gwneir defnydd da o ffurflenni arfarnu i gael adborth uniongyrchol gan gyfranogwyr ar ôl sesiynau hyfforddi. Fel arfer, mae'r ffurflenni

arfarnu yn casglu gwybodaeth feintiol ac ansoddol sy'n ymwneud ag ansawdd yr hyfforddiant, ei effeithiolrwydd yn bodloni anghenion a disgwyliadau'r cyfranogwr a'r modd y bydd yn cael ei ddefnyddio i ddatblygu'r cwricwlwm yn ôl yn yr ysgol. Mae'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn cynnal arfarniad blynyddol cyffredinol o ansawdd eu rhaglen hyfforddi, ond nid yw'r arfarniad hwn yn canolbwyntio digon ar yr effaith a gaiff hyfforddiant ar y cwricwlwm a'r canlyniadau ar gyfer dysgwyr.

38 Mae rhai awdurdodau lleol yn ei gwneud yn ofynnol i ysgolion arfarnu effaith gweithgareddau'r Gronfa Ysgolion Gwell yn ffurfiol. Dim ond un o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw sy'n defnyddio'r templed a awgrymwyd yn arweiniad Llywodraeth Cynulliad Cymru ar arfarnu'r Gronfa Ysgolion Gwell, sy'n holi am effaith gweithgareddau ar gynnydd disgyblion. Nid yw'r rhan fwyaf o awdurdodau lleol yn gwneud defnydd da o unrhyw wybodaeth y mae ysgolion yn ei darparu am effaith y Gronfa Ysgolion Gwell i gynllunio mwy o waith datblygu'r cwricwlwm neu i rannu arfer dda.

39 O ganlyniad, nid yw awdurdodau lleol mewn sefyllfa dda i farnu a yw'r gweithgareddau a ddarperir trwy'r Gronfa Ysgolion Gwell yn helpu datblygu'r cwricwlwm a gwella ansawdd cyflwyno'r cwricwlwm. Mae'r gweithgaredd monitro yr ymgymerwyd ag ef yn canolbwyntio gormod ar sicrhau effeithlonrwydd a chymhwyster gweithgareddau yn hytrach nag ar ganlyniadau ar gyfer dysgwyr.

40 Yn aml, mae ysgolion yn defnyddio eu Cronfa Ysgolion Gwell yn briodol i brynu cymorth neu hyfforddiant cwricwlwm priodol gan ddarparwyr ar wahân i'r awdurdod lleol. Fodd bynnag, nid yw arfarniadau'r ysgolion o hyfforddiant a arweinir gan ddarparwyr eraill yn aml yn cael eu rhannu â'r awdurdod lleol. O ganlyniad, nid yw awdurdodau lleol yn cael trosolwg o ansawdd ystod gyfan yr hyfforddiant cwricwlwm y mae ysgolion yn cael mynediad iddo neu'n ei gaffael. O ganlyniad, nid yw swyddogion yn yr awdurdod lleol bob amser mewn sefyllfa dda i gynghori ysgolion eraill ynglŷn â pha hyfforddiant allanol allai fod yn effeithiol wrth fynd i'r afael â materion cwricwlwm penodol.

41 Ym mwyafrif yr ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae'r tîm arweinyddiaeth yn defnyddio eu rhaglen o arsylwadau ystafell ddosbarth yn dda i arfarnu'r modd y mae datblygiadau a hyfforddiant ysgol gyfan yn gwella arfer ystafell ddosbarth. Mae'r gwaith hwn yn eu galluogi i arfarnu'r newidiadau a wna athrawon unigol i'r modd y maent yn cynllunio ac yn cyflwyno'r cwricwlwm yn dilyn hyfforddiant ysgol gyfan. Fodd bynnag, nid yw'r rhan fwyaf o ysgolion yn arfarnu effaith gyffredinol y Gronfa Ysgolion Gwell ar gwricwlwm yr ysgol nac ar y canlyniadau ar gyfer dysgwyr.

Astudiaeth achos 4
Gwersi poeth

Mae un ysgol yn nodi 'arfer flaenllaw' trwy ei rhaglen o arsylwadau gwersi. Pan nodir 'arfer flaenllaw', yna rhaid i'r aelod o staff wneud 'gwers boeth' i helpu rhannu'r arfer hon ag athrawon eraill yn yr ysgol. Mae'r dull hwn yn helpu athrawon i ddatblygu ystod ehangach o fethodoleg addysgu a syniadau ar gyfer arfer ystafell ddosbarth. Er enghraifft, gwnaeth un athro 'wers boeth' ar chwarae rôl ar gyfer athrawon o feysydd pwnc eraill. Fe wnaeth y 'wers boeth' hon helpu athrawon eraill i nodi a defnyddio cyfleoedd ar gyfer chwarae rôl yn fwy effeithiol ar draws eu meysydd cwricwlwm eu hunain.

Cydweithio a rhannu arfer dda

42 Mewn rhai ardaloedd yng Nghymru, mae cytundebau ffurfiol rhwng awdurdodau lleol i ddefnyddio trefniadau consortia i gyflwyno hyfforddiant cwricwlwm, yn benodol trwy Cynnal, y Gwasanaeth Gwella Addysg ac Ysgolion (ESIS), Cymorth Cwricwlwm a phartneriaeth Ceredigion-Sir Gaerfyrddin[5]. Yn ogystal â'r trefniadau consortia hyn, mae pob awdurdod lleol yn dechrau darparu mwy o hyfforddiant ar y cyd ledled y rhanbarthau. Mae'r dull cysylltiedig hwn ar gyfer darparu hyfforddiant yn rhoi gwerth gwell am arian. Fodd bynnag, nid yw arweiniad a phrosesau ymgeisio Llywodraeth Cynulliad Cymru ar gyfer y Gronfa Ysgolion Gwell yn effeithiol wrth hyrwyddo cydweithio rhanbarthol.

Astudiaeth achos 5

Cynadleddau datblygiad proffesiynol parhaus (DPP) rhanbarthol

Mewn un ardal, mae swyddogion sy'n gyfrifol am ddatblygiad proffesiynol parhaus (DPP) yn cyfarfod yn rheolaidd ar draws pob awdurdod yn y rhanbarth. Mae'r cyfarfodydd hyn yn helpu swyddogion i ddatblygu dull mwy cydlynus ar gyfer DPP. Caiff y rhaglenni cyrsiau byr ar gyfer pob awdurdod lleol eu rhannu ac mae gweithdrefnau cyffredin i staff mewn ysgolion wneud cais amdanynt ac arfarnu'r cyrsiau y maent yn eu mynychu. Mae pob awdurdod lleol yn cymryd cyfrifoldeb am drefnu cynhadledd ranbarthol sy'n helpu datblygu'r cwricwlwm mewn pwnc penodol. Er enghraifft, trefnodd un awdurdod lleol gynhadledd ranbarthol ar addysgu dylunio a thechnoleg gan ddefnyddio dylunio â chymorth cyfrifiadur a gweithgynhyrchu â chymorth cyfrifiadur (CAD/CAM). Mynychodd llawer o bobl y gynhadledd hon. Roedd y gynhadledd yn cynnwys ystod dda o siaradwyr arbenigol. Rhoddodd y diwrnod gyfle defnyddiol i weld enghreifftiau o waith dysgwyr a mynychu arddangosiadau o'r modd y gellid defnyddio offer mewn gwersi. O ganlyniad, mae dealltwriaeth ar y cyd ledled y rhnabarth o'r modd y gellir defnyddio CAD/CAM i ddatblygu'r cwricwlwm ar gyfer dylunio a thechnoleg.

[5] Mae ESIS yn darparu gwasanaeth addysg ar gyfer awdurdodau lleol Pen-y-bont ar Ogwr, Caerffili, Merthyr Tudful a Rhondda Cynon Taf. Mae Cynnal yn darparu gwasanaethau addysg ar gyfer awdurdodau lleol Gwynedd, Ynys Môn a Chonwy. Mae Cymorth Cwricwlwm yn darparu gwasanaethau addysg ar gyfer Conwy, Sir Ddinbych a Sir y Fflint.

43 Mewn llawer o'r awdurdodau lleol yr ymwelwyd â nhw, mae perthynas rwydweithio dda yn datblygu rhwng clystyrau o ysgolion i helpu rhannu arfer. Mae awdurdodau lleol ac ysgolion yn cyfuno Cyllid Ysgolion Gwell ar gyfer datblygu'r cwricwlwm, trosglwyddo a chydweithio rhwng ysgolion cynradd i ddatblygu cysylltiadau cwricwlwm rhwng ysgolion. Trwy'r cydweithio hwn, mae athrawon mewn ysgolion cynradd ac uwchradd yn deall cwricwlwm ei gilydd ac maent yn cyfathrebu'n well i rannu syniadau a chefnogi dysgwyr. O ganlyniad, caiff rhai dysgwyr eu cefnogi'n well trwy eu cyfnod trosglwyddo ac mae eu dysgu ym mhynciau unigol y cwricwlwm yng nghyfnod allweddol 3 yn adeiladu ar eu dysgu yng nghyfnod allweddol 2. Yn yr enghreifftiau gorau, mae clystyrau o ysgolion yn rhannu arfer dda yn dda ac maent yn cynllunio cyfleoedd hyfforddi ar y cyd i ymateb i anghenion a nodwyd yn eu cynlluniau trosglwyddo. Mewn rhai awdurdodau lleol, nid yw gwaith ysgolion mewn clystyrau wedi'i ddatblygu cystal ac nid yw ychwaith yn cael ei arwain yn dda gan yr awdurdod lleol.

44 Ym mhob un o'r ysgolion yr ymwelwyd â nhw, mae staff yn rhoi adborth ar yr hyfforddiant a fynychwyd i gydweithwyr mewn cyfarfodydd staff. Lle bo'n briodol, caiff hyfforddiant yn aml ei raeadru o fewn yr ysgol gan staff sy'n helpu sicrhau bod yr hyfforddiant yn darparu gwerth da am arian a bod datblygiadau yn cael effaith ar draws gwahanol feysydd y cwricwlwm.